



AI a Ganiateir mewn Asesiadau Canllaw i Diwtoriaid

Pwysig: Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar y ddogfen AI mewn Asesiadau (Diweddarwyd Mai 2025). Gwiriwch a oes diweddariad mwy diweddar o'r ddogfen AI mewn Asesiadau ar gael, a dewch o hyd i'r Canllaw i Diwtoriaid sy'n briodol i'r diweddariad hwnnw. Mae offer a galluoedd AI yn newid yn gyflym, felly peidiwch â disgwyl y bydd hen ganllaw yn parhau i weithio.

Gallwch ddod o hyd i'r cyfarwyddyd mwyaf diweddar yma:

- [Cwrs: Cymuned Ddysgu AI | Hafan](#)
- [Cyfarwyddyd AI | Mewnwyd PCYDDS](#)

Cynnwys

Beth yw'r canllaw hwn?	3
Crynodeb cyflym: Y mathau o AI a ganiateir	4
Defnyddiau Cyffredinol a Ganiateir.....	4
YMCHWILIO gydag AI	4
STRWYTHURO gydag AI	5
PRAWF-DDARLLEN gydag AI	5
YSGRIFENNU gydag AI.....	5
RHAGLENNU gydag AI	5
GWAITH CREADIGOL gydag AI	5

Diweddarwyd: 21/05/2025

Yn seiliedig ar: AI mewn Asesiadau (Diweddarwyd Mai 2025)

Crynodeb cyflym: Cydnabod y defnydd o AI	6
Llythrennedd AI: Offeryn a Sgiliau ar gyfer cyflogadwyedd.....	7
Defnyddiau Cyffredinol a Ganiateir a beth i'w wneud gyda nhw.....	8
Pam caniatáu YMCHWILIO gydag AI?	9
Pryd i ganiatáu YMCHWILIO gydag AI	10
Gofalwch.....	10
Enghreifftiau ac Astudiaethau Achos	10
Ymchwil Meintiol mewn Dadansoddeg Busnes	10
Ymchwil Ansoddol mewn Astudiaethau Addysg.....	11
Pam caniatáu STRWYTHURO gydag AI?	12
Pryd i ganiatáu STRWYTHURO gydag AI	12
Enghreifftiau ac Astudiaethau Achos	12
Cynllun Busnes mewn Astudiaethau Busnes	12
Pam caniatáu PRAWF-DDARLLEN gydag AI?	14
Pryd i ganiatáu PRAWF-DDARLLEN gydag AI	14
Pam caniatáu YSGRIFENNU gydag AI?	14
Enghreifftiau ac Astudiaethau Achos	15
Pam caniatáu RHAGLENNU gydag AI?	17
Pam caniatáu GWAITH CREADIGOL gydag AI?	18
Lle nad yw creadigrwydd yn ganolbwynt y rhaglen	18
Enghreifftiau ac Astudiaethau Achos.....	18
Lle mae creadigrwydd yn ganolbwynt y rhaglen	19

Beth yw'r canllaw hwn?

Canllaw yw hwn i diwtoriaid, sy'n creu neu'n gosod asesiadau ar gyfer modylau ar lefelau 3-7. Mae wedi'i lunio i'ch helpu i ddeall y categorïau gwahanol o AI a ganiateir a sut i ddewis y categorïau gorau ar gyfer eich asesiad.

Diweddarwyd: 21/05/2025

Yn seiliedig ar: AI mewn Asesiadau (Diweddarwyd Mai 2025)

Mae'n **rhaidd** eich bod wedi darllen dogfen PCYDDS Cyfarwyddyd ar Ddeallusrwydd Artiffisial (Dysgu ac Addysgu) a'r ddogfen AI mewn Asesiadau (defnyddiwch y fersiwn ddiweddaraf).

Gallwch ddod o hyd i'r dogfennau hyn:

- Ar y fewnrwyd: [Canllawiau AI | Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant](#)
- Ar Moodle: [Course: AI Learning Community | Home](#)

Crynodeb cyflym: Y mathau o AI a ganiateir

I gael y wybodaeth lawn ar y mathau o AI a ganiateir (Cyfarwyddyd: Mai 2025), dylech ddarllen y dogfennau Cyfarwyddyd ar Ddeallusrwydd Artiffisial (Dysgu ac Addysgu), ac AI mewn Asesiadau. Mae'r ddwy ddogfen ar gael:

- Ar y fewnrwyd: [Cyfarwyddyd ar Ddeallusrwydd Artiffisial | Mewnrwyd PCYDDS](#)
- Ar Moodle: [Course: AI Learning Community | Home](#)

Defnyddiau Cyffredinol a Ganiateir

Ers mis Mai 2025, mae cyfres o ddefnyddiau o AI a ganiateir **y caiff pob myfyriwr eu defnyddio ar gyfer pob asesiad.**

Caniateir i fyfyrwyr wneud y canlynol:

- Ddefnyddio offer AI priodol i'w helpu i ddod o hyd i lyfrau, erthyglau ac adnoddau ar-lein perthnasol ar bwnc.
- Defnyddio offer AI i storio a rhyng-gysylltu nodiadau, creu mapiau meddwl a thagio adnoddau a syniadau.
- Defnyddio offer AI i reoli cyfeiriadau a fformatio cyfeiriadau a llyfryddiaethau.
- Defnyddio offer integredig fel Microsoft Editor, neu offeryn arbenigol, fel Grammarly (heb gynnwys Cynorthwydd AI Cynhyrchiol Grammarly), i wirio gramadeg, sillafu a darllenadwyedd.

YMCHWILIO gydag AI

Sylwch fod y canllaw ar gyfer Ymchwilio gydag AI wedi'i ddiweddarau ym mis Mai 2025.

Pan fyddwch yn caniatáu i fyfyrwyr YMCHWILIO gydag AI, mae'n golygu eich bod yn caniatáu iddynt:

1. Ddefnyddio offer AI i gefnogi glanhau data meintiol
2. Defnyddio offer AI i awtomeiddio tasgau a normaleiddio setiau data
3. Defnyddio offer AI i gefnogi dadansoddi data meintiol, gan gynnwys cymorth codio a dadansoddi data cymhleth.
4. Defnyddio offer AI i godio a dadansoddi data testun, fel data ymchwil gwreiddiol, ymatebion i arolygon allanol, cyfweiliadau ayb a data ymchwil eilaidd, fel adolygiadau, erthyglau, ayb.
5. Defnyddio offer dysgu peirianyddol i fodelu a rhagfynegi tueddiadau yn seiliedig ar eich data.
6. Defnyddio offer AI i ddadansoddi data testunol ar gyfer themâu, tueddiadau, teimladau, ayb
7. Defnyddio offer AI i greu delweddiadau

STRWYTHURO gydag AI

Pan fyddwch yn caniatáu i fyfyrwyr STRWYTHURO gydag AI, mae'n golygu eich bod yn caniatáu iddynt:

1. Ofyn i offeryn AI am gyngor ar sut i strwythuro eu gwaith.
2. Gwirio strwythur eu gwaith presennol a rhoi awgrymiadau ar gyfer gwella.

PRAWF-DDARLLEN gydag AI

Sylwch fod y canllaw ar gyfer Prawf-ddarllen gydag AI wedi'i ddiweddararu ym mis Mai 2025.

Pan fyddwch yn caniatáu i fyfyrwyr BRAWF-DDARLLEN gydag AI, mae'n golygu eich bod yn caniatáu iddynt:

1. Ddefnyddio offeryn AI Cynhyrchiol, fel ChatGPT, y bot AI Cynhyrchiol yn Grammarly, neu Microsoft Co-pilot, i wirio a chywiro testun maent wedi'i ysgrifennu eu hunain o ran darllenadwyedd, gramadeg a chystrawen.

Prawf-ddarllen **Uwch** yw hyn, yn hytrach na Phrawf-ddarllen **Sylfaenol** sydd, ers mis Mai 2025, wedi'i gwmpasu o fewn Defnyddiau Cyffredinol a Ganiateir.

YSGRIFENNU gydag AI

Pan fyddwch yn caniatáu i fyfyrwyr YSGRIFENNU gydag AI, mae'n golygu eich bod yn caniatáu iddynt:

1. Ddefnyddio offeryn AI i drosi eu nodiadau yn destun i'w gyflwyno
2. Defnyddio offeryn AI i drosi trawsgrifiad o recordiad llais yn destun i'w gyflwyno

RHAGLENNU gydag AI

Pan fyddwch yn caniatáu i fyfyrwyr RHAGLENNU gydag AI, mae'n golygu eich bod yn caniatáu iddynt:

1. Ofyn cwestiynau i offeryn AI i archwilio'r broblem
2. Creu pytiau o god
3. Dadfygio cod

GWAITH CREADIGOL gydag AI

Gweler y ddogfen AI mewn Asesiadau am eglurhad llawn o'r hyn y caniateir i fyfyrwyr ei wneud **os ydych mewn pwnc Creadigol**.

Os nad ydych mewn pwnc Creadigol, yna darllenwch isod:

Pan fyddwch yn caniatáu i fyfyrwyr wneud GWAITH CREADIGOL gydag AI, mae'n golygu eich bod yn caniatáu iddynt:

1. Ddefnyddio offer AI i greu delweddau
2. Defnyddio AI i drin delweddau

Diweddarwyd: 21/05/2025

Yn seiliedig ar: AI mewn Asesiadau (Diweddarwyd Mai 2025)

3. Defnyddio offer AI i greu neu olygu fideo
4. Defnyddio offer AI i greu neu olygu sain

Crynodeb cyflym: Cydnabod y defnydd o AI

Am fanylion llawn ac enghreifftiau, defnyddiwch y Cyfarwyddyd ar Gydnabod AI

Yn gryno:

- Rhaid i bob myfyriwr, pa un a ydynt wedi defnyddio AI neu beidio, gynnwys cydnabyddiaeth ar ddechrau eu cyflwyniad yn nodi sut/os ydynt wedi defnyddio AI.
- Mae geiriad y gydnabyddiaeth yn benodol ac mae angen dilyn yr hyn sydd yn y Cyfarwyddyd ar Gydnabod AI.
- Cofiwch atgoffa eich myfyrwyr ei bod yn rhaid iddynt gadw copïau o'u drafftiau, nodiadau ac adnoddau eraill.

Mae'r gydnabyddiaeth yn edrych fel hyn:

Rwy'n cydnabod y defnydd o [Offeryn AI] [(url yr Offeryn AI)] ar [Dyddiad] i [Pwrpas fy ngwaith].

Defnyddiais yr anogwr(wyr) / prompt(iau) canlynol:

- [Anogwr/Prompt]
- [Anogwr/Prompt]
- [Anogwr/Prompt]

Rwy'n cadarnhau nad ydw i wedi cyflwyno unrhyw destun a gynhyrchwyd gan ddeallusrwydd artiffisial fel fy ngwaith fy hun. Rwy'n cadarnhau bod gennyf gopïau o'm drafftiau, fy nodiadau, ac unrhyw adnoddau eraill y defnyddiais cyn ac ar ôl defnyddio offer deallusrwydd artiffisial, y gellir gofyn i mi eu darparu fel tystiolaeth.

Mae'r holl gyfarwyddyd sy'n gysylltiedig â myfyrwyr (gan gynnwys canllawiau a fideos) ar gael yn:

- [Course: AI Learning Community | Home](#)
- [Cyfarwyddyd AI | Mewnwyd PCYDDS](#)
- [HWB Myfyrwyr PCYDDS](#)

Llythrennedd AI: Offeryn a Sgiliau ar gyfer cyflogadwyedd

Awgryma [ymchwil a gyhoeddwyd ym mis Mai 2024](#) fod:

- **66%** o arweinwyr busnes yn dweud **na** fyddant yn cyflogi rhywun **heb** sgiliau AI
- **71%** o arweinwyr busnes yn **fwy tebygol** o gyflogi ymgeisydd **llai** profiadol sydd â sgiliau AI nag ymgeisydd mwy profiadol sydd heb sgiliau AI
- **76%** o weithwyr proffesiynol yn dweud bod angen sgiliau AI arnynt i barhau'n gystadleuol
- **22%** o recriwtwyr eisoes yn dweud eu bod yn diweddarau disgrifiadau swyddi i adlewyrchu'r defnydd o **AI cynhyrchiol** yn y rôl.

I bob pwrpas, os nad yw eich myfyrwyr yn gwybod sut i ddefnyddio offer AI yn briodol, maent yn llai tebygol o gael eu cyflogi pan fyddant yn graddio.

Mae integreiddio llythrennedd AI yn eich modylau a'ch asesiadau'n golygu bod eich myfyrwyr yn fwy parod ar gyfer y dyfodol, yn y gwaith neu'r tu allan i'r gwaith.

Awgryma [ymchwil a gyhoeddwyd ym mis Mai 2025](#) fod:

- 24% o arweinwyr busnes yn dweud bod eu cwmnïau eisoes wedi defnyddio AI ar draws y sefydliad
- 81% o arweinwyr yn dweud eu bod yn disgwyl i asiantau fod wedi eu hintegreiddio'n gymedrol neu'n helaeth i strategaeth AI eu cwmni yn y 12 – 18 mis nesaf
- Cysyniad newydd yn cydio: Cwmni Trawsffiniol ('Frontier Firm') "Cwmni Trawsffiniol" yw cwmni a yrrir gan ddeallusrwydd ar dap, timau asiantau dynol, a rôl newydd i bawb: bos asiant".
- Dywed 71% o weithwyr Cwmnïau Trawsffiniol bod eu cwmni yn ffynnu, o gymharu â 37% o weithwyr yn fyd-eang
- Dywed 45% o arweinwyr bod ymestyn capasiti eu tîm drwy lafur ddigidol yn brif flaenoriaeth yn y 12-18 mis nesaf
- Mae 78% o arweinwyr yn ystyried hurio rolau AI-penodol i baratoi at y dyfodol
- Pan ofynnwyd iddynt pam eu bod wedi troi at AI yn hytrach na chydweithiwr, rhoddodd gweithwyr argaeledd 24/7 (42%), cyflymder ac ansawdd peiriant (30%), a syniadau di-ddiwedd ar alw (28%), yn brif resymau – i gyd yn bethau na all bodau dynol eu darparu.
- Mae 28% o reolwyr yn ystyried hurio rheolwyr gweithlu AI i arwain timau hybrid o bobl ac asiantau AI
- Mae LinkedIn yn rhagamcanu y bydd 70% o'r sgiliau a ddefnyddir yn y rhan fwyaf o swyddi heddiw yn newid erbyn 2030, gydag AI yn dod i'r amlwg fel catalydd.
- Llythrennedd AI yw'r sgil uchaf ei alw yn 2025, yn ôl LinedIn.

Diweddarwyd: 21/05/2025

Yn seiliedig ar: AI mewn Asesiadau (Diweddarwyd Mai 2025)

Defnyddiau Cyffredinol a Ganiateir a beth i'w wneud gyda nhw

O fis Mai 2025, mae defnyddiau cyffredinol o AI a ganiateir.

Golyga hyn y bydd myfyrwyr yn cael eu defnyddio ar gyfer **pob** darn o waith.

Sef:

- Defnyddio offer AI priodol i'w helpu i ddod o hyd i lyfrau, erthyglau ac adnoddau a-lein perthnasol ar bwnc.
- Defnyddio offer AI i storio a rhyng-gysylltu nodiadau, creu mapiau meddwl a thagio adnoddau a syniadau
- Defnyddio offer AI i reoli cyfeiriadau a fformatio cyfeiriadau a llyfryddiaethau.
- Defnyddio offer integredig fel Microsoft Editor, neu offeryn arbenigol, fel Grammarly (heb gynnwys Cynorthwydd AI Cynhyrchiol Grammarly), i wirio gramadeg, sillafu a darllenadwyedd.

I bob pwrpas, golyga hyn y gellir gwneud gwaith ymchwil sylfaenol a phrawf-ddarllen sylfaenol drwy ddefnyddio offer AI.

Bydd hyn yn effeithio ar eich dewisiadau o ran defnyddiau AI a ganiateir mewn manylebau asesu unigol (ffurflenni GA36). Os oeddech chi wedi dewis naill ai YMCHWIL neu BRAWF-DDARLLEN yn 2024/25, mae angen i chi ystyried eto p'un a yw'r manylion Ymchwil a Phrawf-ddarllen **diweddaraf** yn berthnasol a phriodol i'r asesiad.

Yn ei hanfod, mae popeth a oedd wedi'i gynnwys mewn YMCHWILIO gydag AI a PHRAWF-DDARLLEN gydag AI 2024/25 bellach wedi symud i **Ddefnyddiau Cyffredinol a Ganiateir**.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn diweddarau unrhyw ganllawiau neu wybodaeth a roddwch i'ch myfyrwyr i adlewyrchu'r diweddariad i'r canllawiau.

Pam caniatáu YMCHWILIO gydag AI?

Pan fyddwch yn caniatáu i fyfyrwyr YMCHWILIO gydag AI, mae'n golygu eich bod yn caniatáu iddynt:

- Defnyddio offer AI i gefnogi glanhau data meintiol
- Defnyddio offer AI i awtomeiddio tasgau a normaleiddio setiau data
- Defnyddio offer AI i gefnogi dadansoddi data meintiol, gan gynnwys cymorth codio a dadansoddi data cymhleth.
- Defnyddio offer AI i godio a dadansoddi data testun, fel data ymchwil gwreiddiol, ymatebion i arolygon allanol, cyfweiliadau, ayb, a data ymchwil eilaidd, fel adolygiadau, erthyglau, ayb.
- Defnyddio offer dysgu peiranyddol i fodelu a rhagfynegi tueddiadau ar sail eich data.
- Defnyddio offer AI i ddadansoddi data testunol ar gyfer themâu, tueddiadau, teimladau, ayb.
- Defnyddio offer AI i greu delweddiadau

Beth mae hyn yn ei olygu?

Ystyr defnyddio AI ar gyfer **Glanhau Data Meintiol** yw bod myfyrwyr yn gallu defnyddio offer AI i ddatgelu a chywiro camgymeriadau, llenwi gwerthoedd gwag, neu safoni fformatau mewn setiau data. Enghraifft: Bydd myfyriwr yn defnyddio cynorthwydd taenlen a yrrir gan AI i adnabod a thrwsio fformatau dyddiad anghyson neu ddileu cofnodion dyblyg mewn set data arolwg.

Awtomeiddio Tasgau a Normaleiddio Setiau Data yw defnyddio AI i awtomeiddio tasgau paratoi data ailadroddus, fel troi testun cyfan yn lythrennau bach neu alinio gwahanol setiau data yn un strwythur cyffredin. Enghraifft: Bydd myfyriwr yn defnyddio Python gydag awgrymiadau cod AI i gyfuno nifer o ffeiliau CSV a normaleiddio enwau colofnau er mwyn cysondeb.

Mae **Cefnogi Dadansoddi Data Meintiol** yn golygu bod myfyrwyr yn gallu defnyddio offer AI i helpu ysgrifennu cod ar gyfer dadansoddi ystadegol, cynhyrchu modelau, neu ddehongli data rhifiadol cymhleth. Enghraifft: Bydd myfyriwr yn defnyddio cynorthwydd codio AI i ysgrifennu cod R sy'n perfformio dadansoddiad atchweliad ar ddangosyddion economaidd.

Codio a Dadansoddi Data Testun yw defnyddio AI i helpu codio data ansoddol (e.e. trawsgrifiadau cyfweiliadau) neu ddadansoddi ffynonellau eilaidd (e.e. adolygiadau o lenyddiaeth). Enghraifft: Bydd myfyriwr yn defnyddio offeryn AI i adnabod themâu sy'n ailadrodd mewn ymatebion i arolwg pen-agored neu i grynhoi dadleuon allweddol set o erthyglau academiaidd.

Diweddarwyd: 21/05/2025

Yn seiliedig ar: AI mewn Asesiadau (Diweddarwyd Mai 2025)

Ystyr defnyddio Dysgu Peiranyddol i **Fodelu a Rhagfynegi Tueddiadau** yw bod myfyrwyr yn gallu cymhwyso modelau dysgu peiranyddol i'w data i adnabod patrymau neu wneud rhagfynegiadau. Enghraifft: Bydd myfyrwyr yn defnyddio offeryn dysgu peiranyddol i ragfynegi defnydd o ynni yn y dyfodol wedi'i seilio ar ddata ar ddefnydd hanesyddol.

Dadansoddi Data Testunol ar gyfer Themâu, Tueddiadau neu Feddyliau yw tynnu mewnwelediadau allan o ddarnau mawr o destun, fel adnabod meddyliau neu dracio sut mae pynciau'r datblygu dros amser. Enghraifft: Bydd myfyriwr yn defnyddio offeryn AI i ddadansoddi postiadau cyfryngau cymdeithasol ar deimladau'r cyhoedd ar fater gwleidyddol.

Ystyr Creu Delweddiadau yw bod myfyrwyr yn gallu defnyddio AI i gynhyrchu siartiau, graffiau, neu gynrychioliadau gweledol eraill o'u data. Enghraifft: Bydd myfyriwr yn defnyddio offeryn AI i greu dashfwrdd rhyngweithiol sy'n delweddu tueddiadau mewn data hinsawdd dros y ddegawd diwethaf.

Pryd i ganiatáu YMCHWILIO gydag AI

Dylech ganiatáu YMCHWIL gydag AI mewn asesiadau ag elfen fawr o ddadansoddi data yn unig.

Gofalwch

Bydd angen help ar fyfyrwyr i ddeall yn llawn sut mae trin data wrth ddefnyddio offer AI.

Bydd angen i chi drafod y canlynol gyda nhw:

- Goblygiadau moesegol a chyfreithiol defnyddio offer AI wrth drin data sensitif.
- Sut i wirio eu gwaith a'u canlyniadau; gall offer AI fod yn wallus.
- Pwysigrwydd gwirio Telerau ac Amodau pob platfform AI y byddant yn ei ddefnyddio.
- Sicrhau na chaiff unrhyw wybodaeth neu ddata sensitif neu gyfrinachol ei ddefnyddio (ar ddamwain neu'n fwriadol) i hyfforddi modelau AI, sydd ar gael yn gyhoeddus neu'n torri gofynion GDPR.

Enghreifftiau ac Astudiaethau Achos

Ymchwil Meintiol mewn Dadansoddeg Busnes

Tasg Asesu: Dadansoddi data prynu cwsmeriaid i adnabod tueddiadau a gwneud argymhellion er mwyn gwella gwerthiannau.

Diweddardwyd: 21/05/2025

Yn seiliedig ar: AI mewn Asesiadau (Diweddardwyd Mai 2025)

Defnydd o AI: Gall myfyrwyr ddefnyddio offer AI i lanhau a normaleiddio data, perfformio dadansoddiadau ystadegol, a chynhyrchu efelychiadau.

Enghraifft Fanwl:

- Glanhau Data: Mae'r myfyriwr yn defnyddio Excel gyda Copilot i ddatgelu a chywiro anghysondebau mewn enwau cynhyrchion a gwerthoedd coll yn y set ddata.
- Dadansoddiad wedi'i awtomeiddio: Maent yn defnyddio ChatGPT neu gynorthwyydd codio AI arall i ysgrifennu cod Python sy'n cyfrifo amllder prynu cyfartalog a gwerth oes cwsmer.
- Delweddu: Mae'r myfyriwr yn defnyddio offer AI fel Tableau gyda phromptiau iaith naturiol i greu dashfyrdau i ddangos tueddiadau tymhorol a segmentiad cwsmeriaid.

Camau Gweithredu'r Myfyrwyr: Dehongli'r data delweddu i wneud argymhellion ar sail tystiolaeth ar gyfer strategaethau marchnata.

Ymchwil Ansoddol mewn Astudiaethau Addysg

Tasg Asesu: Dadansoddi trawsgrifiadau o gyfweiliadau gydag athrawon am eu profiadau o ddysgu o bell.

Defnydd o AI: Gall myfyrwyr ddefnyddio offer AI i godio data ansoddol, adnabod themâu, a chrynhai canfyddiadau.

Enghraifft Fanwl:

- Codio Testun: Bydd y myfyriwr yn lanlwytho trawsgrifiadau i offeryn fel Quirkos neu NVivo gyda chodio â chymorth AI i adnabod themâu sy'n ailadrodd fel "ymgysylltiad myfyrwyr" neu "heriau technegol".
- Dadansoddi Thema: Byddant yn defnyddio offeryn AI cyffredinol i grynhoi pob thema ac echdynnu dyfyniadau cynrychioliadol.
- Dadansoddi Meddyliau: Bydd y myfyriwr yn defnyddio model AI i asesu tôn emosiynol ymatebion, adnabod meysydd o bryder neu foddhad.

Camau Gweithredu'r Myfyriwr: Ysgrifennu adroddiad dadansoddi thematig, yn adfyfyrio'n feirniadol ar y goblygiadau ar gyfer arferion addysgu yn y dyfodol.

Pam caniatáu STRWYTHURO gydag AI?

Pan fyddwch yn caniatáu i fyfyrwyr STRWYTHURO gydag AI, mae'n golygu eich bod yn caniatáu iddynt:

1. Ofyn i offeryn AI am gyngor ar sut i strwythuro eu gwaith.
2. Gwirio strwythur eu gwaith presennol a rhoi awgrymiadau ar gyfer gwella.

Mae dwy ochr i'r defnydd hwn o offer AI.

Ar y naill law, gall myfyrwyr ddefnyddio offer AI i ddysgu am y ffordd orau o strwythuro eu gwaith, cael adborth ar strwythur a chreu gwell gwaith i'w asesu.

Ar y llaw arall, bydd strwythuro dadleuon a/neu adroddiadau, ac ati, gyda dyfodiad offer AI, yn dod yn sgil mwy beirniadol yn hytrach na mecanyddol. Gall offer AI arbed amser ac ymdrech o ran yr ochr fecanyddol o strwythuro, megis dilyn set o gamau neu reolau rhagddiffiniedig, a fformatio a threfnu sylfaenol. Yn hytrach, gall myfyrwyr ganolbwyntio ar fireinio eu cynnwys a chynnal ymchwil pellach.

Ar yr un pryd, gall defnyddio offer AI i strwythuro neu ailstrwythuro gwaith helpu myfyrwyr i ddysgu am gryfderau a gwendidau patrymau strwythurol gwahanol i ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd neu nodau penodol, heb wastraffu amser yn symud paragraffau o gwmpas.

Pryd i ganiatáu STRWYTHURO gydag AI

Dylech ganiatáu STRWYTHURO gydag AI ar gyfer pob asesiad ac ar bob lefel astudio.

Os oes gennych asesiad sy'n targedu sgiliau strwythuro yn benodol, megis cynllun gwers, yna ni allwch ganiatáu STRWYTHURO gydag AI ar gyfer yr asesiadau penodol hynny. Yn hytrach, gallwch integreiddio AI yn y gofynion asesu trwy ofyn i'r myfyrwyr ddefnyddio offer AI i greu strwythurau posibl gwahanol, ystyried yr opsiynau gwahanol, penderfynu pa un sydd orau ar gyfer eu dibenion nhw ac egluro'r penderfyniad.

Cyfrifoldeb y myfyrwyr yw sicrhau eu bod yn gwirio'r deunyddiau a ddarperir ar eu cyfer gan yr offer AI maent yn eu defnyddio.

Enghreifftiau ac Astudiaethau Achos

Cynllun Busnes mewn Astudiaethau Busnes

- **Tasg Asesu:** Datblygu cynllun busnes ar gyfer busnes newydd.
- **Defnydd o AI:** Gall myfyrwyr ddefnyddio offer AI i gael cyngor ar strwythuro eu cynllun busnes a derbyn adborth ar eu strwythur drafft.

Diweddarwyd: 21/05/2025

Yn seiliedig ar: AI mewn Asesiadau (Diweddarwyd Mai 2025)

- **Enghraifft Fanwl:**

- **Prompt:** “Sut ddylwn i strwythuro cynllun busnes ar gyfer busnes newydd?”
- **Allbwn AI:** Adrannau a awgrymir megis crynodeb gweithredol, disgrifiad o'r cwmni, dadansoddiad o'r farchnad, trefniadaeth a rheolaeth, llinell gynnyrch neu wasanaethau, marchnata a gwerthu, cais am gyllid, amcanestyniadau ariannol, ac atodiad.
- **Camau Gweithredu'r Myfyrwyr:** Trefnu eu cynllun busnes yn ôl y strwythur a awgrymwyd a'i fireinio ar sail adborth AI.

Pam caniatáu PRAWF-DDARLLEN gydag AI?

Cofiwch fod prawf-ddarllen **sylyfaenol** gydag AI bellach yn rhan o'r defnyddiau cyffredinol a ganiateir.

Pan fyddwch yn caniatáu i fyfyrwyr BRAWF-DDARLLEN gydag AI ym Manyleb yr Asesiad (GA36), mae'n golygu eich bod yn caniatáu prawf-ddarllen **UWCH**:

Mae hynny'n golygu eich bod yn caniatáu iddynt:

1. Ddefnyddio offeryn AI Cynhyrchiol fel ChatGPT, y bot AI yn Grammarly, neu Microsoft Copilot i wirio testun maen nhw wedi'i ysgrifennu eu hunain o ran darllenadwyedd, gramadeg a chystawen.
2. Cael awgrymiadau ar gyfer aralleirio eu gwaith.

Dim ond y prompt yma caiff myfyrwyr ei ddefnyddio:

PROMPT: Gwiriwch a chywirwch y testun a ganlyn o ran darllenadwyedd, gramadeg a chystawen, gan roi rhestr i mi o newidiadau a wnaed: EICH TESTUN

Yna, mae angen iddynt benderfynu p'un a ydynt am weithredu'r newidiadau a awgrymwyd gan yr offeryn AI Cynhyrchiol (GAI).

Sylwch fod hyn yn cynnwys y defnydd lawn o gymorth AI ar Grammarly.

Pryd i ganiatáu PRAWF-DDARLLEN gydag AI

Dylech ganiatáu PRAWF-DDARLLEN gydag AI mewn pynciau lle byddai disgwyl i fyfyrwyr allu defnyddio'r math hwn o prawf-ddarllen uwch yn y gweithle.

Cofiwch y bydd hyn yn effeithio ar gyflwyniad y myfyriwr o ran iaith ac arddull.

Pam caniatáu YSGRIFENNU gydag AI?

Pan fyddwch yn caniatáu i fyfyrwyr YSGRIFENNU gydag AI, mae'n golygu eich bod yn caniatáu iddynt:

Diweddarwyd: 21/05/2025

Yn seiliedig ar: AI mewn Asesiadau (Diweddarwyd Mai 2025)

1. Ddefnyddio offeryn AI i drosi eu nodiadau yn destun i'w gyflwyno
2. Defnyddio offeryn AI i drosi trawsgrifiad o recordiad llais yn destun i'w gyflwyno

Mae ysgrifennu gydag AI eisoes yn dod yn gyffredin mewn cyfathrebiadau busnes a phob dydd i lawer o bobl. Dros amser, byddai rhywun yn disgwyl ei weld ym mhobman.

Ar yr un pryd, mae ysgrifennu'n ffurfiol, yn ogystal ag mewn cyweiriau gwahanol, wedi bod yn sgil pwysig mewn addysg ar lefel prifysgol ers cannoedd o flynyddoedd. Nid peth hawdd yw camu i fwrdd o hyn.

Wrth ystyried a ddylid caniatáu Ysgrifennu gydag AI yn eich asesiadau, y peth gorau yw dechrau gyda disgwyliadau eich diwydiant perthnasol, os yw hynny'n gymwys, a phrif yrfaoedd graddedigion, yn ogystal â Meincnod yr ASA ar gyfer eich pwnc.

Ar hyn o bryd, mae ysgrifennu gydag AI yn fwyaf addas ar gyfer disgyblaethau ac asesiadau lle mae creu'r testun ysgrifenedig llawn yn llawer llai pwysig na'r gwaith arall y mae myfyriwr wedi'i wneud i gwblhau'r darn o waith.

Y ffactor mwyaf pwysig yn eich penderfyniad yw'r cwestiwn o gaffael sgil. A yw ysgrifennu gydag AI yn sgil y bydd ei hangen ar eich myfyrwyr ym myd gwaith i fod yn gystadleuol o'i gymharu â'u cymheiriaid? Os mai ydy yw'r ateb, yna dylech integreiddio Ysgrifennu gydag AI mewn asesiadau priodol.

Ffactor arall i'w ystyried yw a yw'r gwaith o ysgrifennu aseiniad i bob pwrpas yn ddim mwy nag adrodd ar rannau eraill, pwysicach, o'r asesiad. Os felly, yna byddwch eisiau ystyried a fyddai Ysgrifennu gydag AI yn gallu helpu myfyrwyr i arbed amser a chanolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig.

Enghreifftiau ac Astudiaethau Achos

Cynnig Prosiect Peirianeg

- **Tasg Asesu:** Ysgrifennu cynnig prosiect ar gyfer datblygu datrysiad peirianeg newydd.
- **Defnydd o AI:** Gall myfyrwyr ddefnyddio offer AI i drosi eu syniadau am brosiect ac ymchwil yn gynig strwythuredig.
- **Enghraifft Fanwl:**
 - **Prompt:** "Trosi fy syniadau am brosiect ac ymchwil yn gynig strwythuredig ar gyfer datblygu datrysiad peirianeg newydd."

Diweddarwyd: 21/05/2025

Yn seiliedig ar: AI mewn Asesiadau (Diweddarwyd Mai 2025)

- **Allbwn AI:** Cynnig drafft gydag adrannau fel amcanion prosiect, cefndir, methodoleg, deilliannau disgwyliedig, a chyllideb.
- **Camau Gweithredu'r Myfyrwyr:** Adolygu a mireinio'r cynnig, gan sicrhau ei fod yn glir, yn fanwl ac yn berswadiol.

Pam caniatáu RHAGLENNU gydag AI?

I bob pwrpas mae'r cyfarwyddyd RHAGLENNU ag AI yn caniatáu'r canlynol:

1. Gofyn cwestiynau i offeryn AI i archwilio problem codio.
2. Creu pytiau o god, fel *boilerplate*.
3. Dadfygio

Mae dadfygio a chreu pytiau o god gydag AI yn gyffredin heddiw, ac yn wir byddai pobl yn y diwydiant yn disgwyl i fyfyrwyr wneud hynny. Felly, mae hwn yn sgil ac yn gymhwysiad y mae angen i fyfyrwyr ei gael cyn graddio.

Mae pwysigrwydd tryloywder wrth ddefnyddio AI yn arbennig o gyffredin o ran rhaglennu. Mae defnyddio offer AI yn addysgu pwysigrwydd cydweithredu a thryloywder mewn codio i fyfyrwyr. Maent yn dysgu i ddogfennu eu gwaith a gwahaniaethu rhwng eu cyfraniadau a chod a gynhyrchir gan AI.

Pan ddaw hi'n fater o ddefnyddio offer AI i archwilio problemau neu faterion rhaglennu, gall offer AI helpu myfyrwyr i ddeall cysyniadau rhaglennu cymhleth trwy ddarparu esboniadau ac enghreifftiau. Gall hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol i ddechreuwyr sydd angen rhagor o arweiniad.

Pam caniatáu GWAITH CREADIGOL gydag AI?

Pan ddaw hi'n fater o greu deunyddiau nad ydynt wedi'u hysgrifennu gydag AI, mae'n hanfodol gwahaniaethu rhwng disgyblaethau sy'n canolbwyntio ar gelf, dylunio a'r cyfryngau, a phob disgyblaeth arall.

Lle nad yw creadigrwydd yn ganolbwynt y rhaglen

I bob pwrpas, os ydych mewn disgyblaeth lle nad yw creadigrwydd yn ganolbwynt y rhaglen, yna gall caniatáu gwaith Creadigol gydag AI fod o gymorth mawr i chi, eich myfyrwyr a'u setiau sgiliau.

Yr enghraifft hawsaf yw os yw myfyrwyr eisiau creu tudalen flaen ddeniadol ar gyfer eu traethawd hir. Dylent allu defnyddio AI i greu llun, diagram ac ati.

Os yw eich asesiad yn cynnwys elfennau creadigol, er enghraifft creu llyfrynau, fideos cyfarwyddiadol, adnoddau addysgol, modelau, posteri, ac ati, yna bydd caniatáu Gwaith Creadigol gydag AI yn golygu y bydd eich myfyrwyr yn:

1. Creu gwell gwaith, waeth beth yw eu gallu personol i fod yn ymarferol greadigol. Er enghraifft, gallant greu lluniau a brasluniau heb allu braslunio eu hunain.
2. Gallu bod yn fwy creadigol o ran sut y maent yn mynd i'r afael â'r asesiadau hyn, hyd yn oed os nad ydynt yn gallu lluniadu, braslunio neu actio.
3. Dysgu sgiliau hanfodol ar ddefnyddio offer AI creadigol sydd bellach yn gyffredin mewn amrywiaeth o ddiwydiannau, ac a fydd yn dod yn fwyfwy cyffredin yn y dyfodol agos.

Enghreifftiau ac Astudiaethau Achos

Tasg Asesu: Datblygu Llyfryn Marchnata ar gyfer Cynnyrch Newydd

Defnydd o AI: Gall myfyrwyr ddefnyddio offer AI i greu a gwella elfennau gweledol ar gyfer eu llyfryn marchnata, hyd yn oed os nad oes ganddynt sgiliau artistig traddodiadol.

Enghraifft Fanwl:

1. **Golygu a Gwella Delweddau:**
 - **Prompt:** "Mireinio delweddau'r cynnyrch i'w gwneud yn fwy deniadol ar gyfer y llyfryn."
 - **Allbwn AI:** Delweddau wedi'u golygu gyda gwell golau a chyferbynnedd, a dileu'r cefndir.
 - **Camau Gweithredu'r Myfyrwyr:** Defnyddio'r delweddau wedi'u mireinio trwy gydol y llyfryn i arddangos y cynnyrch.
2. **Creu Elfennau Gweledol:**

- **Prompt:** “Cynhyrchu tudalen flaen broffesiynol yr olwg ar gyfer llyfryn marchnata sy’n ymwneud â’n potel ddŵr ecogyfeillgar newydd, gan ystyried delweddau’r cynnyrch fel y’u darparwyd.”
- **Allbwn AI:** Delwedd neu ddyluniad o ansawdd uchel ar gyfer y dudalen flaen, gan gynnwys enw’r cynnyrch, logo, a chefnidir gweledol ddeniadol.
- **Camau Gweithredu’r Myfyrwyr:** Defnyddio’r dudalen flaen a gynhyrchwyd gan AI fel clawr y llyfryn.

3. Dylunio Diagramau a Ffeithluniau:

- **Prompt:** “Gan ddefnyddio’r wybodaeth ganlynol, creu ffeithlun sy’n dangos manteision amgylcheddol defnyddio’r botel ddŵr ecogyfeillgar.”
- **Allbwn AI:** Ffeithlun sy’n cynrychioli’n weledol ddata am leihau gwastraff plastig, arbedion ynni, a manteision amgylcheddol eraill.
- **Camau Gweithredu’r Myfyrwyr:** Ymchwilio a nodi data priodol ar wastraff plastig, arbedion ynni a manteision eraill. Integreiddio’r ffeithlun yn y llyfryn i gefnogi’r neges farchnata.

Lle mae creadigrwydd yn ganolbwynt y rhaglen

Y prif ffactor wrth i chi benderfynu yw’r diwydiant/diwydiannau perthnasol, eu defnydd o offer AI a’r setiau sgiliau sydd eu hangen ar eich myfyrwyr.

Mae’r cyfarwyddyd Gwaith Creadigol gydag AI, pa un ai ar lefel modwl neu lefel rhaglen, yn caniatáu i chi adnabod offer a defnyddiau priodol ar gyfer pob asesiad. Manteisiwch ar hynny i gefnogi datblygu sgiliau a llythrennedd AI ymhlith carfan y myfyrwyr.